



Chwefror 2017

Annwyl Syr/Madam,

Helpwch i feithrin ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ffermio ar 11 Mehefin 2017

Wrth i ni baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n amlwg y bydd y newid hwn yn effeithio'n fawr ar y sector ffermio. Bydd ymagweddau craff, ymarferol a rhesymegol yn hanfodol wrth i ni lunio Polisi Bwyd, Ffermio ac Amgylchedd newydd ar gyfer y DU. Mae cymorth y rheiny sydd ag angen ffermio fwyaf - sef y cyhoedd - yr un mor bwysig.

Mae hyfywedd ffermio yn y DU yn y dyfodol yn dibynnu ar y cyhoedd yn parchu ac yn ymddiried yn yr hyn y mae ffermio'n ei ddarparu. I hyn ddigwydd, mae angen i bobl deimlo bod ganddynt gysylltiad gwirioneddol â'r modd y caiff eu bwyd ei gynhyrchu ac â chefn gwlad o'u hamgylch. Bydd cefnogaeth gadarn ymhlith y cyhoedd yn arwain at alw yn y farchnad, prisiau tecach a pholisi ffafriol gan y llywodraeth. A dyna pam na fu hi erioed mor bwysig i ddangos rôl hollbwysig ffermio wrth dyfu ein bwyd, cyfrannu at yr economi, rheoli cefn gwlad a gwella ein hadnoddau naturiol.

Mae Dydd Sul Fferm Agored LEAF, a gynhelir ar 11 Mehefin eleni, yn ein galluogi ni, fel diwydiant, i ddod at ein gilydd i gyflwyno ein hachos, ac mae'n ffordd effeithiol iawn o ymgysylltu â'r cyhoedd. Bellach, mae dros chwarter miliwn o bobl yn ymweld â fferm yn flynyddol ar yr hyn a gaiff ei adnabod fel diwrnod agored y diwydiant. Mae'r diwrnod yn helpu ymwelwyr i ddeall ehangder, sgiliau ac amrywiaeth y diwydiant ffermio, a sut mae'n effeithio ar fywydau pob un ohonom. Mae ymchwil yn dangos ei fod yn cael effaith aruthrol ar newid canfyddiadau pobl o'n diwydiant.

Rwy'n annog pob ffermwr i gymryd rhan eleni naill ai drwy gynnal eu digwyddiad eu hunain neu helpu cymydog. Mae Dydd Sul Fferm Agored i bawb. Nid yw maint yn bwysig, tra bod rhai ffermwyr yn cynnal diwrnodau agored mawr, mae llawer o'r digwyddiadau yn daith breifat fach ar y fferm i gynulleidfa wadd. Mawr ynteu fach, mae POB digwyddiad yn bwysig.

Dydd Sul Fferm Agored yw ein cyfle ni i arddangos y balchder y mae pob un ohonom yn ei deimlo yn ein diwydiant ffermio *ni* a'r cyfan y mae'n ei gyflawni. Ni allwn fod yn hunanodlon. Cymerwch ran, da chi. I gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru digwyddiad, ewch i www.farmsunday.org.

Caroline Drummond MBE
Prif Weithredwr LEAF